*Mae Prifysgol Abertawe yn Noddwr Myfyrwyr wedi'i drwyddedu gan yr UKVI – Hanes Blaenorol*

# Llwybr i Raddedigion: Polisi i Fyfyrwyr a Noddir

Fersiwn 2.0 (yn cynnwys gwybodaeth am gonsesiwn COVID-19)

Tachwedd 2023

*Mae Prifysgol Abertawe'n parchu bod ei thrwydded noddi myfyrwyr gan UK Visas and Immigration (UKVI) yn fraint ac nid yn hawl. Er mwyn sicrhau bod rheolaeth mewnfudo'r DU yn cael ei chynnal, mae Prifysgol Abertawe yn gweithredu systemau trwyadl i gyflawni ei dyletswyddau o ran noddi myfyrwyr o adeg cyhoeddi Cadarnhad Derbyn i Astudio (CAS) nes bod:*

- *Prifysgol Abertawe yn tynnu nawdd myfyriwr yn ôl*
- *y myfyriwr yn gadael y DU; neu fod*
- *y myfyriwr yn cael caniatâd i aros yn y DU gyda noddwr gwahanol neu mewn categori mewnfudo arall*

*Mae systemau wedi'u hategu gan bolisïau trylwyr.*

Awdur: Gwasanaethau Cydymffurfiaeth Myfyrwyr Rhyngwladol

Bywyd Myfyriwr

## 1.0 Diben

1.1 Ysgrifennwyd y polisi hwn i gyfleu polisi a gweithdrefnau Prifysgol Abertawe ar gyfer fisa'r llwybr i Raddedigion i'w fyfyrwyr a noddir.

1.2 Mae'r llwybr i raddedigion yn fisa gwaith ôl-astudio hyblyg sy'n caniatáu i fyfyrwyr aros yn y DU i weithio neu chwilio am waith am 2 flynedd ar ôl i radd gael ei dyfarnu, neu 3 blynedd os dyfarnwyd cymhwyster Doethuriaeth. Gall myfyrwyr hefyd astudio ar y fisa hwn er bod astudio'n cael ei gyfyngu. Ceir rhagor o wybodaeth am amodau'r llwybr i raddedigion yn **adran 9.0.**

1.3 Mae Prifysgol Abertawe yn noddwr myfyrwyr wedi'i gofrestru gyda'r UKVI â hanes o gydymffurfio, felly gall Prifysgol Abertawe gynnig y llwybr i raddedigion i'w myfyrwyr cymwys.

1.4 Mae'n ofynnol i Brifysgol Abertawe roi gwybod am yr holl fyfyrwyr sy'n gymwys beth bynnag yw'r bwriad i ymgeisio.

1.5 Mae rheolau'r Swyddfa Gartref ar gyfer mewnfudo drwy'r llwybr i raddedigion ar gael yma.

## 2.0 Cwmpas

2.1 Mae'n ofynnol i Brifysgol Abertawe roi gwybod i'r Swyddfa Gartref am yr holl fyfyrwyr a noddir drwy Haen 4/y Llwybr Myfyrwyr (SR) sy'n gymwys am y llwybr i raddedigion gan ddefnyddio System Rheoli Noddwyr y Swyddfa Gartref (SMS).

2.2 Rhoir gwybod i'r SMS am fyfyrwyr yn unol â'r disgrifiad *'student has successfully completed course in line with qualifying criteria for the graduate route*'. Mae rhoi gwybod am fyfyrwyr drwy'r SMS yn cynghori'r Swyddfa Gartref bod y myfyriwr wedi bodloni'r **70 pwynt** sy'n ofynnol ar gyfer:

- gofyniad y llwybr i raddedigion i gwblhau'n llwyddiannus (gweler **adran 4**)
- gofyniad y llwybr i raddedigion i gymhwyso (gweler **adran 5**) a
- gofyniad y llwybr i raddedigion i astudio yn y DU (gweler **adran 6**)

2.3 Ni all myfyrwyr gyflwyno cais am fisa'r llwybr i raddedigion nes cael e-bost gan studentcompliance@abertawe.ac.uk yn eu cynghori bod **pwynt 2.2** wedi'i gwblhau. Nid oes angen i fyfyrwyr ofyn am yr e-bost hwn a gallant ddisgwyl cael neges ymhen 21 diwrnod ar ôl cyhoeddi eu canlyniadau. Gall myfyrwyr baratoi ceisiadau yn barod yma.

2.4 Ni roir gwybod am fyfyrwyr sydd mewn dyled i'r Brifysgol neu sy'n wynebu honiadau o gamymddygiad academaidd neu rai eraill, ac ni fyddant yn derbyn yr e-bost a nodir ym **mhwynt 2.3.**

## 3.0 Cydymffurfio

3.1 Mae'r llwybr i raddedigion yn llwybr heb noddwr; felly, mae dyletswyddau noddi Prifysgol Abertawe yn dod i ben unwaith y bydd fisa'r llwybr i raddedigion yn cael ei

ddyfarnu ac ni allwn ddarparu cyngor mewnfudo ar gyfer y llwybr i raddedigion. Gellir ceisio cymorth ac arweiniad ynghylch ceisiadau drwy: international.campuslife@abertawe.ac.uk.

3.2 Dim ond myfyrwyr y mae Prifysgol Abertawe yn asesu eu bod yn gymwys (gweler **adran 4.0, adran 5.0** ac **adran 6.0**) y rhoir gwybod i'r UKVI eu bod wedi bodloni'r canlynol: 'successfully completed their course in line with qualifying criteria for the graduate route'.

3.3 Ni ddylai myfyrwyr gyflwyno cais am lwybr i raddedigion y DU nes y derbynnir hysbysiad e-bost gan wasanaethau cydymffurfio myfyrwyr Prifysgol Abertawe (gweler **Atodiad 1**).

3.4 Ni fydd myfyriwr a noddir ar y Cynllun Estyniad Doethuriaeth (DES) yn gymwys i gyflwyno cais am y llwybr i raddedigion. Mae'r llwybr i raddedigion wedi disodli cynllun DES. Dim ond unwaith yn ystod eich oes y gallwch ddal caniatâd o dan y llwybr i raddedigion neu gynllun DES.

3.5 Ni roir gwybod am fyfyrwyr sydd mewn dyled i'r Brifysgol neu sydd ag achosion o gamymddygiad ar y gweill.

3.6 Mae cwblhau ar amser yn hanfodol ar gyfer mynediad hwylus i'r llwybr i raddedigion. Mae'n bwysig i fyfyrwyr ddeall bod yn rhaid cadarnhau canlyniadau cymwysterau a'u cyhoeddi yn ystod cyfnod dilys eu mewnfudo. Rhaid eich bod wedi derbyn eich cymhwyster (gweler **adran 4.0** am ragor o wybodaeth).

**4.0 Y Gofyniad i Gwblhau'n Llwyddiannus**

4.1 Ar adeg cyflwyno cais, rhaid i fyfyrwyr fod yn y DU ar fisa Haen 4/llwybr myfyrwyr dilys ar ôl cael dyfarniad cymhwyster sy'n gymwys am y llwybr i raddedigion (gweler **adran 5.0**).

4.2 Bydd gorfod ailsefyll arholiadau ac ailgyflwyno gwaith yn effeithio ar ryddhau canlyniadau ar amser.

4.3 Os yw dyddiad gorffen eich cwrs yn cael ei ymestyn (am unrhyw reswm) argymhellir eich bod yn siarad â'ch goruchwyliwr/cyfadran yn y lle cyntaf i gadarnhau pryd y bydd eich canlyniadau'n cael eu cyhoeddi. Ceir cysylltiadau cyfadrannau/ysgolion yma.

4.4 Cyfrifoldeb myfyriwr yw sicrhau y bydd yn gallu cael canlyniadau cyn i'w fisa ddod i ben, ac felly bydd modd cyflwyno cais am y llwybr i raddedigion.

4.5 Ni fydd modd i Brifysgol Abertawe weithredu y tu allan i'r amserlenni asesu arferol er mwyn ailsefyll arholiadau a rhyddhau canlyniadau yn gynt.

4.6 Mae Prifysgol Abertawe wedi ymrwymo i gefnogi myfyrwyr sydd â diddordeb yn fisa'r Llwybr i Raddedigion a bydd yn cyhoeddi Cadarnhad Derbyn i Astudio i alluogi myfyrwyr i gyflwyno cais am estyniadau fisa Llwybr Myfyrwyr hyd yn oed pan fo

dyddiadau gorffen cwrs newydd yn ystod cyfnodau dilys fisâu cyfredol (yn ystod y cyfnod dod i ben).

4.7 Ni all myfyriwr ymestyn ei fisa Llwybr Myfyrwyr i aros yn y DU am ganlyniadau ac felly mae'n hanfodol cymryd camau prydlon pan fydd estyniad i ddyddiad gorffen cwrs a chyflwyno cais cyn y dyddiad gorffen newydd hwnnw.

4.8 Rhaid cyflwyno ceisiadau am estyniadau fisa Llwybr Myfyrwyr cyn gynted â phosibl a chyn dyddiad gorffen cwrs newydd y myfyriwr. Byddai estyniadau fisa (dyddiad gorffen y cwrs newydd + 4 mis). Er mwyn asesu cymhwysedd i gyflwyno cais am estyniad fisa, gofynnir i fyfyrwyr anfon e-bost o'r enw 'CAS for GR purposes' i: cas.compliance@abertawe.ac.uk.

4.9 Cyfrifoldeb y myfyriwr yw sicrhau ei fod yn cydlynu estyniad fisa Llwybr Myfyrwyr mewn modd amserol i ategu unrhyw gais yn y dyfodol ar gyfer y Llwybr i Raddedigion.

4.10 Dylid ystyried estyniad i fisa Llwybr Myfyrwyr yn ofalus gan fod costau sy'n gysylltiedig â'r Swyddfa Gartref.

4.11 Os bydd myfyriwr yn cyflwyno cais Llwybr i Raddedigion heb dderbyn ei ganlyniadau, caiff ei gais ei wrthod, a cholli'r ffi ymgeisio.

**5.0 Y Gofyniad am Gymhwyster**

5.1 Ceir manylion am gymwysterau cymwys yn atodiad **GR 5.1 – GR 5.4** y rheolau mewnfudo a geir yma.

5.2 Bydd myfyrwyr yn bodloni'r gofyniad am gymhwyster ar ôl cwblhau'n llwyddiannus y cwrs astudio a nodir yn eu fisa Haen 4/Llwybr Myfyrwyr presennol. Mae cyrsiau cymwys yn cynnwys gradd Baglor yn y DU, gradd Meistr yn y DU, PhD neu ddoethuriaeth yn y DU, neu gymhwyster sy'n ofynnol gan gyfraith y DU i ddilyn proffesiynau megis - ond heb fod yn gyfyngedig i - feddygon, penseiri, cyfreithwyr, athrawon a nyrsys. Un enghraifft fyddai TAR (addysg) neu'r LPC (Ymarfer Cyfreithiol).

5.3 Gall myfyrwyr sydd wedi newid cwrs sy'n ansicr am sut y gall hyn effeithio ar eu cymhwysedd ar gyfer y Llwybr i Raddedigion e-bostio international.campuslife@abertawe.ac.uk.

5.4 Rhaid ennill y cymhwyster a gafwyd yn ystod y cyfnod diwethaf o ganiatâd i astudio fel myfyriwr, neu yn ystod y cyfnod o ganiatâd yn union cyn cyfnod diweddaraf yr ymgeisydd o ganiatâd os bu'r cyfnod diweddaraf o ganiatâd at ddiben ymgymryd â rôl fel Swyddog Sabothol Undeb y Myfyrwyr.

5.5 Os nad yw cymhwyster myfyriwr yn gymwys, ni fydd yn derbyn yr e-bost a nodir ym **mhwynt 2.2.** Ni fyddai cymhwyster ymadael yn gymhwyster cymwys.

**6.0 Y Gofyniad Astudio yn y DU**

6.1 Disgwylir i fyfyrwyr ymgymryd â'u hastudiaethau yn y DU i fod yn gymwys ar gyfer y Llwybr i Raddedigion.

6.2 Y lleiafswm cyfnod  astudio yn y DU ar gyfer y Llwybr i Raddedigion yw o leiaf 12 mis NEU hyd llawn eich cwrs, p'un bynnag sy'n fyrrach. Gellir cynnwys yn y lleiaf-swm cyfnod weithgareddau 'astudio dramor' a ganiateir (h.y. gweithgareddau dramor fel rhan o gwrs) neu amser a dreulir dramor yn ystod seibiannau a ganiateir o ast-udio, megis yn ystod cyfnodau gwyliau swyddogol neu ar y penwythnos.

6. Gellir treulio'r isafswm cyfnod astudio ar fwy nag un fisa Haen 4/Llwybr Myfyrwyr os caiff ei ddyfarnu i astudio'r un cymhwyster yn y Brifysgol.

6.4 Mae consesiynau COVID-19 yn berthnasol tan 30 Mehefin 2022.

6.5 Os dechreuodd cwrs myfyriwr ar unrhyw adeg, ac mae'n para am fwy na 12 mis, ni fydd unrhyw amser a dreulir yn dysgu o bell y tu allan i'r DU **rhwng 24 Ionawr 2020 a 30 Mehefin 2022** yn eich atal rhag bodloni gofynion cymhwysedd y Llwybr i Raddedigion.

**7.0 Adrodd (amserlen)**

7.1 Mae'r tîm Gwasanaethau Cydymffurfiaeth Myfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe yn llunio adroddiadau rheolaidd (yn wythnosol pan fo'n bosibl) i sicrhau bod cymwysterau/dyfarniadau'n cael eu canfod a'u hadrodd mor fuan â phosibl.

7.2 Nod y Gwasanaethau Cydymffurfiaeth Myfyrwyr yw cyflwyno hysbysiadau i'r Swyddfa Gartref a chadarnhau hyn i fyfyrwyr drwy e-bost (gweler **Atodiad 1**) ymhen 14 diwrnod ar ôl nodi dyfarniad ar y system, ond dylai myfyrwyr ganiatáu hyd at 21 diwrnod.  Nid oes angen i fyfyrwyr ofyn am yr e-bost hwn.

7.3 Bydd myfyrwyr yn cael eu cadarnhad e-bost ar yr un diwrnod ag y cyflwynir adroddiad i'r Swyddfa Gartref/UK Visas and Immigration (gweler **Atodiad 1**).

7.4 Gall myfyrwyr sydd wedi cael eu cymhwyster ond heb dderbyn e-bost ymhen y cyfnod o 21 diwrnod e-bostio Kathryn.miller@abertawe.ac.uk.

7.5 Os oes amser byr rhwng cyhoeddi canlyniadau a chyfnod mewnfudo'n dod i ben, gall y myfyrwyr hyn hefyd e-bostio Kathryn.miller@abertawe.ac.uk.

**8.0 Cyflwyno Cais**

8.1 Mae'r Swyddfa Gartref wedi cynghori Prifysgol Abertawe a phob noddwr myfyrwyr arall na allant ddarparu cymorth mewnfudo i fyfyrwyr noddedig sy'n cyflwyno cais o dan y Llwybr i Raddedigion.  Mae'r Llwybr i Raddedigion yn llwybr heb ei noddi ac nid yw eithriadau ar ddarparu cyngor mewnfudo yn berthnasol o dan drwydded noddi myfyrwyr Prifysgol Abertawe.  Dylai myfyrwyr gysylltu â'r Swyddfa Gartref yn uniongyrchol os oes ymholiadau sy'n benodol i'r Llwybr i Raddedigion; ceir manylion cyswllt yma.

8.2 Gellir cael cymorth cyffredinol gan international.campuslife@abertawe.ac.uk

8.2 Gall myfyrwyr gyflwyno eu ceisiadau unwaith y byddant yn cael e-bost cadarnhau (gweler **Atodiad 1**) tan ddyddiad gorffen eu cyfnod caniatâd presennol (neu ddyddiad diwedd eu sicrwydd eithriadol, os yw'n berthnasol).

8.3 Ar ôl cyflwyno cais, gall yr ymgeisydd aros yn y DU i aros am benderfyniad, hyd yn oed os bydd ei fisa'n dod i ben yn ystod y cyfnod hwn. Fel arfer, bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ymhen 8 wythnos.

8.4 Ar ôl cyflwyno cais, ni ddylech deithio y tu allan i'r DU nes bod penderfyniad yn cael ei dderbyn.

8.5 Dylid cyflwyno unrhyw gais Llwybr i Raddedigion ar-lein yn y DU ar ôl i Brifysgol Abertawe roi gwybod i'r Swyddfa Gartref bod myfyriwr wedi cwblhau cymhwyster Llwybr i Raddedigion yn llwyddiannus a chyn i ganiatâd myfyriwr (fisa Haen 4/Llwybr Myfyrwyr) neu sicrwydd eithriadol ddod i ben.

8.6 Gellir paratoi ceisiadau yn barod yma.

8.7 Ni ddylid cwblhau cais nes cael hysbysiad e-bost gan studentcompliance@abertawe.ac.uk (gweler **Atodiad 1**).

8.8 Pan gaiff ei ddyfarnu, cyflwynir y fisa ar ffurf statws digidol (eFisa). Gellir profi statws digidol yma.

8.9 Gall dibynyddion sydd eisoes yn y DU gyflwyno cais i fod yn ddibynyddion o dan y Llwybr i Raddedigion.

**9.0 Crynodeb**

9.1 Mae'r Llwybr i Raddedigion yn llwybr hyblyg a chynhwysol iawn i aros yn y DU, ac mae ar gael dim ond i'r rhai yn y DU a noddir gan ddarparwr addysg uwch a restrir fel 'Student Sponsor-Track Record' i astudio yn y DU.

9.2 Nid yw'r Llwybr i Raddedigion yn llwybr i ymsefydlu, a dim ond unwaith mewn oes y gellir ei gael.

9.3 Ni all myfyrwyr estyn eu harhosiad o dan y Llwybr i Raddedigion, ond mae'n bosibl newid i fisa gwaith ôl-astudio arall. Hefyd, mae'n bosibl newid yn ôl i'r Llwybr Myfyrwyr ar gyfer astudiaethau pellach ond ni fyddai cwblhau'r astudiaethau hynny yn arwain at arhosiad pellach o dan y Llwybr i Raddedigion.

9.4 Mae'r Llwybr i Raddedigion yn rhoi cyfle i fyfyrwyr rhyngwladol sydd wedi ennill eu gradd i aros yn y DU a gweithio, neu chwilio am waith, ar unrhyw lefel sgiliau am 2 flynedd (3 blynedd i fyfyrwyr doethurol).

9.5 Gall y gwaith fod mewn unrhyw sector ac ar unrhyw lefel heb unrhyw ofynion o ran isafswm cyflog nac angen am nawdd fisa.

9.6 Gall myfyrwyr ddechrau gweithio mewn swydd wag barhaol amser llawn ar ôl iddynt gwblhau eu cwrs yn llwyddiannus a chyflwyno cais am y Llwybr i Raddedigion. Gweler ST26.6 yma.

9.7 Gall myfyrwyr hefyd astudio o dan y Llwybr i Raddedigion. Ni chaniateir astudio a allai mewn theori gael ei noddi o dan y Llwybr Myfyrwyr, felly byddai enghreifftiau o astudio a ganiateir yn cynnwys:

- Rhai cyrsiau proffesiynol
- Cyrsiau ar-lein
- Dosbarthiadau nos
- Cyrsiau hamdden

9.8 Gall dibynyddion sydd eisoes yn y DU fel dibynnydd myfyriwr Haen 4 neu Lwybr Myfyrwyr gyflwyno cais fel dibynnydd o dan y Llwybr i Raddedigion.

9.9 Os oes gennych ddibynyddion sydd y tu allan i'r DU, rhaid iddynt ymuno â chi o dan y Llwybr Myfyrwyr cyn cyflwyno cais am y Llwybr i Raddedigion. Nid oes dyddiad cau i ddibynyddion ymuno â'r prif ymgeisydd, ond mae'n rhaid gwneud hynny cyn i Fisa Haen 4/Llwybr Myfyrwyr yr ymgeisydd ddod i ben.

9.10 Mae'n rhaid i ymgeiswyr a'u dibynyddion lynu wrth yr un amodau gwaith ac amodau astudio.

9.11 Os yw myfyriwr eisoes wedi cael cyflogaeth a/neu nawdd, efallai bydd fisâu gwaith ôl-astudio eraill sy'n fwy addas. Ceir gwybodaeth am opsiynau fisâu gwaith ôl-astudio eraill yma.

9.12 Gellir e-bostio cwestiynau i studentcompliance@abertawe.ac.uk. Dylid rhoi'r teitl 'Llwybr i Raddedigion' ar yr e-bost.

# Atodiad 1

Annwyl xxx,

**Parthed: Fisa Llwybr i Raddedigion** - Rhoi gwybod am gwblhau cymhwyster cymwys yn llwyddiannus i UK Visas & Immigration (UKVI)

Llongyfarchiadau, rydych chi wedi cwblhau cymhwyster yn llwyddiannus sy'n eich galluogi i gyflwyno cais am ganiatâd i aros yn y DU fel Graddedig. Ceir gwybodaeth gan y Swyddfa Gartref am fisa Llwybr i Raddedigion y DU, gan gynnwys sut i gyflwyno cais, yma.

Mae'r UKVI yn rhan o'r Swyddfa Gartref.

Yn unol â'n dyletswyddau noddwr Haen 4/Myfyrwyr, rydym wedi rhoi gwybod i'r UKVI eich bod wedi cwblhau cwrs yn llwyddiannus, a gallwch nawr symud ymlaen i gyflwyno cais am fisa'r Llwybr i Raddedigion os ydych yn dymuno gwneud hynny.

Cyn cyflwyno cais, dylech sicrhau eich bod yn bodloni'r holl ofynion dilysu, addasrwydd a chymhwyso. Mae rheolau mewnfudo fisa'r Llwybr i Raddedigion ar gael yma.

- **Rhaid** i chi fod yn y DU pan fyddwch chi'n cyflwyno eich cais.
- **Rhaid** i chi feddu ar fisa Haen 4/fisa Llwybr Myfyrwyr dilys (nid yw'r Hawlen Breswyl Biofetrig wedi dod i ben).

Bydd arnoch angen rhif CAS (Cadarnhad Derbyn i Astudio) eich fisa Haen 4/fisa Llwybr Myfyrwyr presennol pan fyddwch yn cyflwyno cais:
**Eich rhif CAS yw: XXXX**

Argymhellir eich bod yn darllen yr wybodaeth am fisâu'r Llwybr i Raddedigion gan y Swyddfa Gartref a'r rheolau mewnfudo yn drylwyr cyn cyflwyno cais (gweler y dolenni a ddarperir uchod).

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus y llwybr hwn yn cael fisa 2 flynedd (fisa 3 blynedd os ydych chi wedi ennill PhD neu Ddoethuriaeth). Mae'n llwybr heb noddwr sy'n eich galluogi i gymryd cyflogaeth ar unrhyw lefel gydag unrhyw gyflogwr (â thâl neu'n ddidâl). Gallwch ymchwilio i'r amodau llawn a gwybodaeth bellach am fisa'r Llwybr i Raddedigion ar ein tudalen we yma.

Os ydych eisoes wedi dod o hyd i gyflogaeth a/neu nawdd, efallai y bydd fisâu gwaith ôl-astudio eraill sy'n fwy addas ar eich cyfer chi. Ceir gwybodaeth am opsiynau fisâu gwaith ôl-astudio eraill yma.

Dim ond unwaith y gellir cyflwyno cais am fisa'r Llwybr i Raddedigion a'i chael; ni ellir ei hymestyn na chyflwyno cais amdani eto yn y dyfodol hyd yn oed ar ôl cyfnod arall o astudio. Os ydych eisoes wedi cael fisa'r Llwybr i Raddedigion ni fyddwch yn gallu

cyflwyno cais eto.  Rhaid sylwi hefyd nad yw'r Llwybr i Raddedigion yn arwain at ym-sefydlu; fodd bynnag, cewch gyflwyno cais i newid i gategorïau gwaith eraill neu yn ôl i'r Llwybr Myfyrwyr ar gyfer astudiaethau pellach yn y DU.

Gyda dymuniadau gorau oll,

Gwasanaethau Cydymffurfiaeth Myfyrwyr Prifysgol Abertawe